# AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

**Gwneud atebion eich arolwg hyd yn oed yn fwy gwerthfawr**

## Beth ydym ni eisiau ei wneud?

Hoffai Trafnidiaeth Cymru allu cysylltu eich atebion arolwg dienw â gwybodaeth ddienw arall a gedwir amdanoch ym Manc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe. Er enghraifft: eich meddyg teulu, cofnodion ysbyty ac addysg.
Banc Data SAIL - Ystyr SAIL yw Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw a gallwch ddarllen mwy am fanc data SAIL ar eu gwefan: https://saildatabank.com/cy.
Ariennir Banc Data SAIL gan Lywodraeth Cymru.

## Pam rydyn ni eisiau cysylltu atebion eich arolwg?

Bydd cysylltu atebion eich Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn rhoi cyfoeth o wybodaeth ychwanegol i ymchwilwyr cymeradwy, o fewn Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, y GIG a sefydliadau cyhoeddus achrededig eraill, fel y gallant gael darlun cliriach o faterion yng Nghymru a sut i fynd i'r afael â hwy.

## Beth fydd yn digwydd i'm gwybodaeth?

Bydd Trafnidiaeth Cymru, trydydd parti dibynadwy Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac amgylchedd ymchwil diogel Banc Data SAIL; yn cydweithio i gysylltu eich atebion arolwg â gwybodaeth ddienw arall a gedwir amdanoch ar Fanc Data SAIL.
Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sefydliad sydd â chyfleusterau diogel ar gyfer cysylltu data. Mae Banc Data SAIL yn adnodd ymchwil Cymru gyfan sy'n canolbwyntio ar wella iechyd, llesiant a gwasanaethau. Mae cronfa ddata SAIL yn amgylchedd sydd wedi'i ardystio gan ISO 27001 ac wedi'i achredu gan Awdurdod Ystadegau'r DU, ac mae'n cynnwys ystod o setiau data dienw, sy'n seiliedig ar unigolion, y gellir eu cysylltu'n ddienw yn amodol ar fesurau diogelu a chymeradwyaeth i fynd i'r afael â chwestiynau ymchwil pwysig. Nid yw Banc Data SAIL yn derbyn nac yn trin data adnabyddadwy. Bydd eich enw, dyddiad geni a chod post yn aros ar wahân i'ch ymatebion arolwg bob amser ac ni fyddant yn cael eu cynnwys yn y data cysylltiedig.

## Pwy fydd yn gallu defnyddio'r data cysylltiedig?

Bydd y data ar gael drwy Fanc Data SAIL i ymchwilwyr cymeradwy o TrC, Llywodraeth Cymru, prifysgolion neu sefydliadau achrededig eraill ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo gan Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru a Phanel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth SAIL (IGRP). Dim ond prosiectau ymchwil anfasnachol fydd yn cael eu cymeradwyo.

Cyn y caniateir i ymchwilwyr gael mynediad at ddata gan ddefnyddio amgylchedd ymchwil diogel, rhaid iddynt gwblhau cwrs hyfforddi i wneud yn siŵr eu bod yn deall sut i drin data dienw cysylltiedig yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol.

## Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth am hyn?

I gael rhagor o wybodaeth ewch i trc.cymru/prosiectau/arolwg-teithio-cenedlaethol-cymru

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES